Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| To: | Members of the Pwyllgor Archwilio Perfformiad | Date: | 30 Tachwedd 2017 |
| | | Direct Dial: | 01824 712554 |
| | | e-mail: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Dear Councillor

You are invited to attend a meeting of the **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD** to be held at **9.30 am** on **DYDD IAU, 7 RHAGFYR 2017** in **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yours sincerely

G. Williams
Head of Legal, HR and Democratic Services

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017 (copi ynghlwm).

**5 DATBLYGU STRATEGAETH CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD** (Tudalennau 15 - 28)

Ystyried adroddiad (copi wedi'i hamgáu) yn egluro tueddiadau cyflwr ffyrdd ers dechrau'r Cynllun Corfforaethol blaenorol (2012 – 2017) a chyflwyno dealltwriaeth o'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cynnig defnyddio'r gyllideb sydd ar gael yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol nesaf (2017 – 2022).

9:35 a.m

**EGWYL**

**6 CWYNION PERFFORMIAD EICH LLAIS (CH2)** (Tudalennau 29 - 50)

Archwilio gwybodaeth (copi ynghlwm) am berfformiad gwasanaethau wrth gydymffurfio â gweithdrefn gwyno'r Cyngor.

10:30 a.m

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 51 - 74)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

11:00 a.m

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar fyrddau a grwpiau amrywiol y Cyngor.

**MEMBERSHIP**

**Councillors**

Y Cynghorydd Huw Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard
Ann Davies
Martyn Holland
Geraint Lloyd-Williams
Bob Murray
Arwel Roberts
Peter Scott
David Williams
Eryl Williams

**COPIES TO:**

All Councillors for information
Press and Libraries
Town and Community Councils

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
*(*dileuer un)*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

*(Gweler y nodyn isod)**

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 28 Medi 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Councillors Ellie Chard, Ann Davies, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-gadeirydd), Huw Jones (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams a Peter Scott. Roedd Mrs Kathleen Jones (Aelod Cyfetholedig) yn bresennol ar gyfer eitemau 5 a 6.

Roedd yr Aelodau Cabinet – y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a'r Cynghorydd Richard Mainon yn bresennol ar ôl cael eu gwahodd gan y Pwyllgor ar gyfer eitemau sy'n ymwneud â'u portffolios.

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant (KIE), Uwch Swyddog Gwella Ysgolion (JM), Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG), Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau (PG), Rheolwr Tîm Cefnogi Busnes (BC), Uwch Reolwr - Gwasanaethau Cynnal (AL), Rheolwr Gwella Gwasanaethau (FfA), Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (KR), Cydlynydd Archwilio (RE) a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KAE).

Cynrychiolwyr GwE yn bresennol ar gyfer eitemau 5 a 6. Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Jacqueline Chan (Ymgynghorydd Arweiniol y Sector Addysg Cynradd - Conwy a Sir Ddinbych) a Paul Matthews-Jones (Ymgynghorydd Arweiniol Sector Addysg Uwchradd Conwy a Gwynedd).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bob Murray, a'r Aelod Cyfetholedig Gareth Williams.

**Teyrnged i Alastair McNab**

Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Swyddog Arweiniol: Gweithrediadau a Chymorth i Fusnesau, Alastair McNab, a fu farw'n sydyn yr wythnos cynt. Rhoddodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Martyn Holland eu hymddiheuriadau am orfod gadael y cyfarfod yn fuan i dalu eu teyrnged yn yr angladd.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganwyd Cysylltiad Personol fel aelodau o Gorff Llywodraethu Ysgolion gan y Cynghorwyr E Chard, H Hilditch-Roberts, M Holland, H Jones, G Lloyd-Williams a P Scott ar gyfer eitemau 5 a 6.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017.

Materion yn codi:

Eitem 6 Cofrestr Risg Gorfforaethol – Roedd yr ymateb gan Wasanaeth Cynllunio Brys Gogledd Cymru wedi ei gylchredeg i aelodau fel rhan o'r ddogfen Briff Gwybodaeth cyn y cyfarfod.

Eitem 7 y Cynllun Corfforaethol (C4) –

a) Y Rheolwr Gwasanaeth Derbyn ac Ymyrraeth newydd oedd Jamie Pope.
b) Roedd atal y Cynllun Hawl i Brynu wedi ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD** y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir.*

## 5 ASESIADAU ATHRAWON A CHANLYNIADAU ARHOLIADAU DROS DRO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg adroddiad ac atodiadau (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn darparu gwybodaeth ar berfformiad disgyblion Sir Ddinbych mewn perthynas ag asesiadau athro terfynol ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-17, a darparu canlyniadau archwilio dros dro yng Nghyfnod Allweddol (CA)4 ac ôl-16 ar ddiwedd tymor yr haf 2017.

Yn ystod ei gyflwyniad, nododd yr Aelod Arweiniol fod y canlyniadau CA4 yn destun proses asesu gwahanol i flynyddoedd blaenorol ac felly nid oedd modd ei gymharu'n gywir gyda chanlyniadau'r sir yn y blynyddoedd cynt. Roedd swyddogion addysg ac Aelodau Arweiniol Addysg ar draws Cymru wedi eu hysbysu ym mis Ebrill 2017 i ddisgwyl gwaethygiad mewn perfformiad yng nghanlyniadau arholiadau TGAU 2017 oherwydd y broses asesu newydd.

Nododd yr Aelod Arweiniol hefyd fod swyddogion wedi gofyn i nifer o bapurau disgyblion Sir Ddinbych gael eu hail-farcio gan eu bod yn cwestiynu'r graddau a roddwyd iddynt. Roedd canlyniadau'r broses hon yn llwyddiannus hyd yma a byddai'n cael ei adlewyrchu yn y canlyniadau a wiriwyd pan fyddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ddechrau 2018.

Nododd y Pennaeth Addysg fod canlyniadau asesiadau athrawon y sector addysg gynradd yn pwysleisio fod:

- y Gwasanaeth Addysg yn anelu at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen i gynnal asesiadau cadarn o allu disgyblion. Roedd cyrhaeddiad disgyblion Sir Ddinbych ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn ystod 2017 wedi bod 1.7% o dan y targed, ac yn 20fed allan o 22 yng Nghymru – is na'r safle prydau ysgol am ddim (PYD) disgwyliedig, ond un safle'n uwch na'r safle disgwyliedig yn rhanbarth Gogledd Cymru. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio data sydd ar gael i swyddogion y Gwasanaethau Plant, roedd wedi gallu deall yr heriau a wynebwyd gan blant unigol yn y cohort. Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud

ar y cyd â'r Gwasanaethau Plant mewn perthynas â'r disgyblion hyn yn seiliedig ar waith profiadau anffafriol plant Iechyd Cyhoeddus Cymru;

- Roedd asesiadau CA2 yn parhau i gofnodi gwelliant bob blwyddyn. Roedd cyflawniad rŵan yn 88.9% a dim ond 6 o ddisgyblion nad oedd ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a fethodd i gyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC). Yn ogystal, ni wnaeth 37 o ddisgyblion sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY), lwyddo i gyflawni'r DPC.
- roedd swyddogion o Adran Addysg y Sir ag Estyn yn cyfarfod ar ddiwedd pob tymor i drafod cyrhaeddiad ac roedd y Rheoleiddiwr wedi nodi nad oedd ganddo bryderon am berfformiad disgyblion cynradd Sir Ddinbych gan fod y Sir yn ymwybodol o amgylchiadau personol pob disgybl unigol;
- roedd gan yr Adran Addysg bryderon am y perfformiad cyffredinol yn CA4, er gwaethaf fod pob awdurdod yng Nghymru wedi eu cynghori i beidio â chymharu canlyniadau'r flwyddyn bresennol gyda pherfformiad y flwyddyn cynt;
- roedd perfformiad pob awdurdod yng Nghymru yn CA4 wedi gwaethygu yn 2017 pan gyflwynwyd y maes llafur newydd a'r system raddio;
- Roedd proffil perfformiad Sir Ddinbych yn CA4 yn ddiddorol iawn oherwydd fod ganddo'r ysgol gyda'r perfformiad gorau a'r trydydd gorau yn CA4 yng Ngogledd Cymru, ond roedd hefyd ganddo'r ysgol gyda'r perfformiad gwaethaf;
- nid oedd papurau arholi Llenyddiaeth Gymraeg na Saesneg eleni yn cyfrif tuag at y Lefel 2+, dim ond yr arholiadau iaith a mathemateg oedd yn cael eu hystyried ar gyfer y Lefel 2+; a
- o fewn ffiniau'r sir, Sir Ddinbych oedd â'r nifer uchaf o'r wardiau cyngor mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru, felly roedd swyddogion yn archwilio data PYD i sicrhau ei fod yn adlewyrchu perfformiad y sir yn gywir ac i ganfod a oedd pawb gyda hawl i PYD yn eu hawlio nhw.

Llongyfarchodd aelod cyfetholedig yr Eglwys Gatholig ar y pwyllgor archwilio'r Sir ar ei ymagwedd o ganolbwyntio darpariaeth addysg a lles ar anghenion penodol pob disgybl unigol. Teimlai mai hon oedd yr ymagwedd gywir i'w chymryd, gan yn benodol gysylltu anghenion addysgol y plentyn gyda'i anghenion/hanghenion lles fel y nodwyd gan y Gwasanaethau Plant. Yn ei barn hi, roedd cael yr un swyddog yn Bennaeth y ddau wasanaeth pwysig hyn yn hwyluso'r ymagwedd hon ac yn cefnogi'r gwaith ar draws y ddau wasanaeth.

Pwysleisiodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod:

- Roedd 12 disgybl yn 1% o'r cohort yn y data perfformiad, felly gallai perfformiad nifer fechan o ddisgyblion yn y cohort mewn arholiad gael effaith sylweddol ar sgôr perfformiad cyffredinol y sir, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol;
- roedd yn bwysig cofio fod perfformiad CA4 eleni yn dir newydd hollol;
- Roedd cyfraniad Sir Ddinbych i raglen addysg Gogledd Cymru yn allweddol. Er y byddai gwella perfformiad yn CA4 yn her, roedd yn bwysig cofio fod perfformiad sector cynradd Sir Ddinbych yn dda a pherfformiad rhanbarth Gogledd Cymru oedd y gorau yng Nghymru yn y sector cynradd;
- roedd y bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion ar Lefel 2+ yn y rhanbarth hefyd yn cau mewn cymhariaeth a rhanbarthau eraill Cymru; ac

- yn ei farn ef, byddai her aruthrol yn ystod y flwyddyn i ddod mewn perthynas â gwella perfformiad disgyblion yn Saesneg a Mathemateg, yn arbennig o ystyried y ffaith fod 31 o'r 55 Pennaeth Adran Mathemateg yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, newydd eu penodi i'w swyddi.

Nododd Arweinydd Cynradd GwE:

- yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a oedd hyd at 7 oed, aseswyd disgyblon ar eu sgiliau llythrennedd, mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol (DPCh);
- Roedd perfformiad disgyblion Sir Ddinbych ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi dirywio eleni, y tro cyntaf i hyn ddigwydd ers cyflwyno asesiadau'r Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, roedd y bwlch perfformiad rhwng disgyblion sy'n cael PYD a disgyblion nad oedd yn cael PYD yn llai ar draws gweddill rhanbarth Gogledd Cymru, ac
- er bod perfformiad llythrennedd, mathemateg a gwyddoniaeth yn CA2 wedi gwella yn Sir Ddinbych, roedd pob sir arall hefyd wedi gwella yn erbyn y dangosydd hwn. Fodd bynnag, yn CA2 roedd Sir Ddinbych wedi perfformio yn uwch na'r sgôr PYD disgwyliedig ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Roedd hefyd yn ddymunol i nodi fod llai o fwlch rhwng perfformiad disgyblion ar y cam hwn a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oedd yn gwneud, a bod y bwlch perfformiad rhwng merched a bechgyn yn culhau.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau gwnaeth yr Aelod Arweiniol Addysg, Swyddogion y Gwasanaeth Addysg a chynrychiolwyr GwE:

- nodi er nad oedd mecanwaith 'bwysoli' yn bodoli i ystyried yr effaith ar berfformiad ysgol o gael nifer anghymesur o ddisgyblion ADY neu SIY, dim ond un rhan o'r wybodaeth a oedd ar gael ar ysgolion unigol oedd canlyniadau arholiadau a data asesiadau athrawon. Roedd yn bwysig ystyried data perfformiad naill ochr â gwybodaeth arall a oedd ar gael fel adroddiadau archwiliadau estyn, gwybodaeth categoreiddio ysgolion ac ati, ac nid ar ben ei hun;
- roi sicrwydd fod gan Wasanaeth Addysg y sir broffil unigol o bob disgybl yn ysgolion Sir Ddinbych, gan gynnwys disgyblion ADY sy'n mynd i ysgolion prif ffrwd a'r disgyblion hynny sy'n mynd i'w ysgolion arbennig. Roedd y Gwasanaeth yn deall yr hyn roedd pob disgybl yn gallu ei gyflawni, y gefnogaeth fyddai ar gael iddynt i gyflawni eu potensial llawn, gan gynnwys anghenion y rhai hynny oedd â rhwystrau cymhleth i'w goresgyn er mwyn cyflawni eu potensial;
- cadarnhau fod proffiliau disgyblion y sir yn cyd-fynd ag asesiadau archwilio Estyn. Dadansoddodd GwE y data hwn yn agos ac yn sgil hynny, roedd yn dal y data proffil disgyblion mwyaf manwl o holl gonsortia Gwella Ysgolion ar draws Cymru;
- pwysleisiodd nad oedd disgyblion gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu ADY mor debygol o gyflawni canlyniadau A* lluosog. Fodd bynnag, roedd dyletswydd ar y cyngor i sicrhau eu bod yn cael y profiad addysgol gorau posibl, ac un a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol;

- cadarnhau fod y mesur PYD yn fesur Llywodraeth Cymru, a ddefnyddiwyd ganddynt wrth adrodd ar berfformiad addysgol. Nid oedd modd i gyfoedion yn yr ysgol adnabod plant a oedd yn derbyn PYD, roeddent ond yn cael eu nodi ar systemau gweinyddu'r ysgol a data disgyblion y Sir at ddibenion adrodd ystadegol ac i sicrhau fod pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir / amgylchiadau yn cael yr un cyfleoedd addysgol;
- Nododd fod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o waith gyda Phenaethiaid yn ddiweddar gyda'r nod o ddeall pa wasanaethau sydd eu hangen ar gyfer disgyblion ADY yn eu hysgolion;
- cadarnhau fod effaith negyddol ar ganlyniadau perfformiad CA4 Lefel 2+ eleni yn dilyn diddymu'r cymhwyster Llenyddiaeth Saesneg / Cymraeg o'r dangosydd. Yn ogystal, roedd y dull asesu wedi newid, gyda 80% o'r mesur perfformiad bellach yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau. Roedd elfen mathemateg a rhifedd y cymhwyster CA4 wedi newid i gynnwys rhesymu mathemategol mewn bywyd bob dydd;
- dywedodd wrth y Pwyllgor fod y gostyngiad o -9.3% mewn perfformiad yn Sir Ddinbych ar CA4 (Lefel 2+), o % fwyaf o ostyngiad yn y rhanbarth, yn sgil nifer o ffactorau h.y. yn secondiad pennaeth ysgol gyda pherfformiad uchel, llithriadau perfformiad mewn ysgolion eraill o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol, perfformiad disgyblion sy'n derbyn PYD ac ati. Mae'r ysgol gyda'r perfformiad gorau yn y rhanbarth a'r trydydd gorau yn ogystal â'r ysgol sydd a'r perfformiad gwaethaf yn y rhanbarth yn y sir, roedd graddau'r amrywiad hwn mewn perfformiad yn effeithio ar safle perfformiad cyffredinol y Sir;
- esboniwyd mesuriad Cap 9 newydd Llywodraeth Cymru (LlC), a oedd yn canolbwyntio ar naw pwnc cryfaf pob disgybl ac yn cyfuno eu sgôr perfformiad ar draws y pynciau a ddewiswyd;
- cadarnhaodd fod GwE ar hyn o bryd yn archwilio'r ddarpariaeth cwricwlwm sydd ar gael yn ysgolion Sir Ddinbych i sicrhau ei fod yn ateb y gofyn;
- cadarnhaodd fod gan GwE gynllun gwella ar waith ar gyfer pob ysgol yn Sir Ddinbych a'u bod yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Addysg y Cyngor i ddarparu'r cynllun. Lle bo angen, byddai swyddogion arbenigol yn mynd i ysgolion a oedd yn tangyflawni mewn ymgais i wella canlyniadau'r disgyblion;
- gwirio fod pob adran bwnc ym mhob ysgol uwchradd wedi eu hasesu er mwyn nodi eu hanghenion gwella;
- dywedodd fod GwE a swyddogion addysg ar hyn o bryd yn dadansoddi'r data i ganfod a oedd ymagwedd newydd tuag at asesu disgyblion yn CA4 wedi cyfrannu tuag at ddirywiad mewn perfformiad ar draws y rhanbarth;
- cadarnhaodd, er y gallai secondiad staff gyda chyflawniad uchel i sefydliadau fel GwE gael effaith niweidiol ar berfformiad ysgol, roedd rhaid i wasanaeth gwella ysgolion arbenigol sicrhau gwasanaethau'r bobl orau er mwyn darparu gwelliant cynaliadwy i ysgolion ar draws y rhanbarth. Roedd felly'n bwysig fod y cydbwysedd cywir o staff o ansawdd uchel gyda chymwysterau priodol yn cael eu cynnal ar bob lefel o fewn y system addysg er mwyn cyflawni cymaint o fudd â phosibl i bawb; a
- nododd fod y targed gwaelodol cyfartalog 3 blynedd CA4 ar gyfer disgyblion sy'n derbyn PYD o 36%, lle'r oedd Sir Ddinbych ond wedi cyflawni 16.2% a dim ond un o awdurdodau Gogledd Cymru oedd wedi ei gyflawni, yn darged cynyddrannol gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Pennaeth Addysg wrth aelodau, mewn perthynas â pherfformiad siomedig ysgolion unigol, fod:

- mynegwyd pryder dwys i gorff llywodraethu ysgol a oedd wedi caniatáu secondiad ei Bennaeth, er nad oedd y dirywiad yn eu perfformiad yn cael ei briodoli i ymadawiad y Pennaeth ond i danberfformiad un adran. Roedd y Corff Llywodraethu wedi eu hysbysu, os oeddynt yn caniatáu i'r Pennaeth gael ei secondio, dylai felly fod ganddynt drefniadau monitro cadarn yn eu lle ar gyfer rheolwyr canol yr ysgol i sicrhau nad oedd perfformiad disgyblion yn dioddef;
- roedd uwch swyddogion, cadeirydd y llywodraethwyr a chynrychiolwyr esgobaeth o ysgol arall a oedd yn tangyflawni wedi eu gwahodd i gwrdd â hi i drafod materion arweinyddiaeth a rheoli, perfformiad PYDd, cyfraddau absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig, a'u cynlluniau gwella; a
- gan ystyried y bydd ysgolion Catholig cynradd ac uwchradd yn cau yn y dyfodol yn y Rhyl ac agoriad ysgol ffydd newydd 3 – 19 oed yn y dref, roedd Pennaeth cynradd wedi ei benodi i weithio naill ochr i dîm rheoli'r ysgol uwchradd bresennol. Gan felly alluogi monitro ei welliant a'r gallu i ddarparu cefnogaeth a her, gyda'r bwriad o gyflawni gwelliant cynaliadwy yn barod ar gyfer agoriad yr ysgol newydd. Roedd cyfraddau absenoliaeth yr ysgol eisoes yn gostwng.

Rhoddodd yr Aelod Arweiniol Addysg sicrwydd i'r Pwyllgor fod ganddo bob hyder fod staff Gwasanaeth Addysg y Sir a GwE yn adnabod ysgolion a disgyblion y sir yn dda iawn, a'u bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod pob disgybl yn cyflawni eu potensial llawn. Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor y byddai'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion (GMSY), a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o'r pwyllgorau archwilio, yn cael ei gadeirio yn y dyfodol gan yr Aelod Arweiniol Addysg. Byddai'r GMSY hefyd yn ystyried adroddiadau adolygu chwarterol GwE yn rheolaidd.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol Addysg, er bod y Cyngor a'r Gwasanaeth Addysg yn gefnogol ar y cyfan i'r egwyddor o ganiatáu staff i gael profiad ychwanegol drwy gyfleoedd secondiad, credai y byddai'n fuddiol yn y dyfodol i fanylion y secondiadau arfaethedig gael eu rhannu gyda'r Cyngor er mwyn iddo gyflwyno ei arsylwadau ar eu heffaith i'r cyrff llywodraethu cyn iddynt wneud penderfyniadau ar geisiadau am secondiad.
Cyn gorffen y drafodaeth, pwysleisiodd aelodau'r angen i ganolbwyntio ar ysgolion sy'n tangyflawni a'u cefnogi i lefel lle gallent gynnal gwelliant parhaus. Ar y sail hwn, trafodwyd pa mor ymarferol ydoedd i wahodd Penaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu ysgolion a oedd yn tangyflawni ac/ neu yn wynebu problemau difrifol i ddod i gyfarfod archwilio i drafod gydag aelodau'r Pwyllgor eu cynlluniau gwella. Roedd Aelodau a'r Prif Weithredwr yn cefnogi'r ymagwedd hon.

Casgliad y Pwyllgor:

***<u>PENDERFYNWYD: yn amodol ar y sylwadau uchod -</u>***

***(i) derbyn y wybodaeth am berfformiad ysgolion y Sir a disgyblion yn erbyn perfformiad blaenorol a meincnodau allanol a oedd ar gael ar hyn o bryd;***
***(ii) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn Atodiad D 6 wrth iddo ystyried y wybodaeth; a***
***(iii) gwahodd Penaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu ysgolion a oedd yn tangyflawni ac/ neu yn wynebu problemau difrifol i gwrdd â'r***

***Pwyllgor yn y dyfodol gyda'r bwriad o gefnogi gwelliannau cynaliadwy tymor hir.***

## 6 RHAGLEN HERIO A CHEFNOGI NEWYDD GWE

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi gwybodaeth i aelodau ar fodel her a chefnogaeth newydd GwE ar gyfer ysgolion Sir Ddinbych – gan gynnwys y strwythur diwygiedig ar gyfer y sefydliad a manylion ei arferion gwaith i gefnogi gwelliant i ysgolion ar draws rhanbarth Gogledd Cymru Rhoddodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant wybod i Aelodau fod GwE wedi wynebu cyfnod sylweddol o her a bod swyddogion yn Sir Ddinbych bellach yn fwy hyderus y byddai strwythur 'newydd' GwE yn cefnogi gwella ysgolion ar draws pob sector addysg yn y sir.

Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr newydd GwE fod y fformiwla genedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion wedi rhoi rhagor o bwyslais ar ddarparu rhagor o gefnogaeth i'r sector cynradd. O safbwynt Sir Ddinbych, roedd y ffocws hwn wedi cael effaith negyddol ar berfformiad y sector uwchradd yn y sir. Rhoddodd Swyddogion Arweiniol Cynradd ac Uwchradd GwE ar gyfer Sir Ddinbych wybod i aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi eu penodi i'w swyddi unigol i gefnogi ysgolion i ddatblygu a darparu eu Cynlluniau Gwella Ysgolion, roedd y swyddogaeth honno yn cynnwys sicrhau ansawdd y cynlluniau hynny i sicrhau y byddent yn sicrhau Gwelliant ac yn darparu gwell canlyniadau i bob disgybl. Byddai dau Swyddog Arweiniol GwE yn cwrdd â swyddogion addysg arweiniol y Cyngor bob pythefnos i sicrhau fod gwelliannau cynaliadwy yn cael eu gwireddu ym mhob ysgol ar draws y sir. Eglurodd swyddogion GwE y byddai'r model newydd yn cynnwys Cynlluniau Busnes manwl Lefel 2 a Lefel 3 o fis Medi 2017. Byddai'r Cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar chwe blaenoriaeth GwE, sef:

- safonau
- cwricwlwm ac asesu
- arweinyddiaeth
- lles
- addysgu; a
- busnes

ac roedd manylion am bob un ohonynt yn yr adroddiad. Byddai'r Cynlluniau Lefel 2 yn canolbwyntio ar safonau'r awdurdod lleol, cwricwlwm ac asesu, arweinyddiaeth, lles ac addysgu, a byddai'r Cynlluniau Lefel 3 uwch yn canolbwyntio ar feysydd mwy arbenigol o'r cwricwlwm, busnes a llywodraethu GwE ac ati, ac yn cymharu perfformiad a chanlyniadau ar draws chwe ardal awdurdod addysg lleol y rhanbarth.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd y swyddogion GwE a'r Gwasanaeth Addysg fod:

- lles pob disgybl ar draws pob sector o'r ysgol yn rhan ganolog o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan GwE a'r awdurdod lleol, gan fod disgyblion iach, gwydn a chyfrifol yn fwy tebygol o wireddu eu potensial;
- ystyriwyd fod cyfuno Addysg a Gwasanaethau Plant yn Sir Ddinbych o dan yr un Pennaeth Gwasanaeth yn fanteisiol ac yn ffafriol i gyflawni'r agenda lles; a
- Byddai Estyn yn ail-arolygu GwE ganol mis Hydref 2017

Roddodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych wybod i'r Pwyllgor y byddai bob amser problemau neu faterion pryder yn ymwneud ag addysg disgyblion. Cyfrifoldeb GwE a'r awdurdod addysg lleol oedd nodi a deall y 'problemau' a chyflwyno mesurau i fynd i'r afael â nhw a'u datrys. Dywedodd wrth aelodau fod ganddo hyder yn y model newydd hwn ac y byddai'n cyflawni'r canlyniadau dymunol. Ymateb y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd:</u> -***

***(i) yn amodol ar yr arsylwadau uchod ar y strwythur a'r arferion gwaith diwygiedig i gefnogi gwelliant ysgolion yn Sir Ddinbych i ardystio'r model; a***

***(ii) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaethau ar yr uchod.***

**7 'EICH LLAIS' : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD O RAN YMDRIN Â CHWYNION**

Wrth gyflwyno'r adroddiad Cwynion 'Eich Llais' ar gyfer Chwarter 4 2016/17 a Chwarter 1 2017/18 (a gylchredwyd yn flaenorol), dywedodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer datblygu Isadeiledd Cymunedol wrth y Pwyllgor fod yr wybodaeth yn cael ei darparu i roi cyfle i aelodau archwilio perfformiad y Cyngor wrth ddelio â chwynion. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu sut yr oedd gwasanaethau'r Cyngor wedi defnyddio cwynion er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth i drigolion. Yn ystod y cyflwyniad hwn, tynnodd yr Aelod Arweiniol sylw aelodau at y ffaith fod nifer y canmoliaethau a dderbyniwyd yn ystod y ddau chwarter unigol yn fwy na nifer y cwynion a gafwyd, ac roedd hynny'n ddymunol. Roedd hefyd yn amlwg o'r data nad oedd unrhyw batrwm amlwg yn amlygu ei hun mewn perthynas â'r cwynion a gafwyd.

Wedi ei atodi i adroddiad 'Eich Llais' oedd adroddiad a ofynnwyd amdano gan aelodau ar y 'Dangosfwrdd Cwsmeriaid' – a oedd yn rhoi trosolwg o ganlyniadau ymdrech a bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer y Cyngor am y cyfnod mis Medi 2016 tan fis Awst 2017. Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, amlinellodd y Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata y broses ar gyfer gwerthuso adborth cwsmeriaid a sut y defnyddiwyd yr adborth a gafwyd i wella gwasanaethau'r Cyngor. Nododd y dylai adroddiadau 'Dangosfwrdd Cwsmeriaid' yn y dyfodol gynnwys dadansoddiad ystadegol a data ar sail gwasanaeth wrth wasanaeth.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau gwnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- roi manylion y broses ar gyfer delio â 'chwynion', gan bwysleisio fod 'cwynion' yn wahanol i 'geisiadau gwasanaeth'.
- nodi y gellid ymdrin â 'cheisiadau gwasanaeth' a'u datrys yn gynharach os oeddynt yn berthnasol ac y darparwyd gwybodaeth benodol gan y galwr a gysylltodd â'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid;
- cadarnhaodd fod y Cyngor bob amser yn chwilio am ddulliau o wella gwasanaethau a gwella mynediad at y broses gwyno ar gyfer y cyhoedd. Roedd gwefan y Cyngor yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ar sut i wneud cwyn;

- nododd nad oedd y galwadau ffôn a gafwyd am geisiadau gwasanaeth neu i gofrestru cwynion yn cael eu recordio. Serch hynny, byddai cofnod ar bapur yn cael ei gwneud o bob cais neu gŵyn a gafwyd;
- cadarnhau fod rhai gwasanaethau, neu asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor, yn fwy tebygol o arwain at gwynion yn eu herbyn e.e. gwasanaethau gorfodi sifil. Roedd hyn oherwydd natur eu gwaith;
- nodi, os oedd aelodau yn teimlo bod angen codi ymwybyddiaeth am Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol y Cyngor byddai digwyddiad cyfathrebu yn cael ei drefnu ar y diben hwn; a
- cadarnhau fod y Cyngor yn croesawu cwynion gan ei fod yn eu hystyried yn fodd effeithiol o ddeall problemau a gwella gwasanaethau yn sgil hynny.

Aeth y Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata ati ymchwilio'r oedi a wynebwyd wrth fwrw ymlaen â 'ceisiadau gwasanaeth' os nad oedd yr union god post ar gyfer y broblem / digwyddiad yn hysbys i'r person sy'n rhoi gwybod. Ymrwymodd hefyd i sicrhau fod y rhifau ffôn ar gyfer y gwasanaeth brys y tu allan i oriau o fewn cyrraedd hawdd ar holl gyhoeddiadau, gohebiaeth, gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***<u>Penderfynwyd:</u>* - yn amodol ar y sylwadau uchod -**

***(i)*** ***derbyn yr adroddiad ar berfformiad y Cyngor wrth ddelio a chwynion, canmoliaeth ac awgrymiadau a gafwyd o dan weithdrefn gwyno gorfforaethol 'Eich Llais' yn ystod Chwarter 4, 2016-17 a Chwarter 1, 2017-18, a sut roeddynt yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau i drigolion; a***

***(ii)*** ***derbyn data ar y canlyniadau Ymdrech a Bodlonrwydd Cwsmeriaid ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2016 i fis Awst 2017 a sut y defnyddiwyd y wybodaeth honno at y diben o wella gwasanaethau i gwsmeriaid y Cyngor a thrigolion.***

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Roedd copi o "ffurflen gynnig Aelodau" wedi'i chynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynydd Archwilio i unrhyw gynigion gael eu cyflwyno iddi hi. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac a oedd yn rhoi gwybod am gynnydd wrth eu rhoi ar waith, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1. Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol – ar gais y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio – i raglen y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 7 Rhagfyr 2017:-

a) astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio ar Reoli Gwastraff yng Nghymru ac
b) adroddiad ar 'Datblygu Strategaeth Gynnal Priffyrdd'.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor benodi aelodau i'r Grwpiau Her Gwasanaeth sy'n goruchwylio meysydd gwaith penodol neu berfformiad gwasanaethau. I'r perwyl hwnnw, cyflwynwyd yr enwebiadau canlynol:

- Y Cynghorydd Ellie Chard - Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd.
- Y Cynghorydd Hugh Irving - Gwella a Moderneiddio Busnes

**PENDERFYNWYD**

***(i) yn amodol ar y sylwadau a'r diwygiadau uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a***
***(ii) cytuno ar y penodiadau i'r Grwpiau Herio Gwasanaeth.***

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Ni chyflwynwyd unrhyw adborth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00pm

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Rhagfyr 2017** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Chludiant Cynaliadwy / Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Asedau Priffyrdd a Risg** |
| **Teitl:** | **Datblygu Strategaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad canlynol yn amlinellu pa mor effeithiol yw'r buddsoddiad a wnaethpwyd yn ystod y blynyddoedd diweddar i wella cyflwr ffyrdd a beth fydd cynnwys y strategaeth arfaethedig o ran rheoli'r cyllid sydd ar gael yn y dyfodol i sicrhau'r budd gorau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad am dueddiadau yng nghyflwr y ffyrdd ers dechrau'r Cynllun Corfforaethol diwethaf (2012 - 2017), ac i ddarparu gwybodaeth am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn bwriadu defnyddio'r gyllideb sydd ar gael yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol nesaf (2017 - 2022).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 darparu sylwadau ac yn cefnogi'r dull a gynigir gan y gwasanaeth i gydbwyso'r risg o ffyrdd yn dirywio yn erbyn yr adnoddau ariannol sydd ar gael yn ystod 2017-2022; ac yn

3.2 cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae yna 1,416 cilomedr o briffyrdd cyhoeddus wedi eu mabwysiadu yn Sir Ddinbych, pob un o wahanol gymeriad a phwysigrwydd ac yn amrywio o strydoedd mawr prysur i lonydd gwledig sy'n cysylltu eiddo unigol. Beth bynnag eu natur, mae'n ddyletswydd statudol arnom ni i gadw pob un mewn cyflwr diogel. Felly mae'n rhaid i'r Cyngor Sir benderfynu sut y mae'n bwriadu rheoli'r risg.

Ers 2012 mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i wella cyflwr y ffyrdd yn Sir Ddinbych fel bod gan drigolion ac ymwelwyr Sir

Ddinbych fynediad i rwydwaith ffyrdd wedi ei reoli'n dda, ac mae cyllid sylweddol wedi ei neilltuo er mwyn cadw at yr ymrwymiad hwn. Yn y Cynllun Corfforaethol newydd, dan y strategaeth Clymu Cymunedau, mae ymrwymiad o hyd i fuddsoddi mewn ffyrdd a phontydd er mwyn cynnal rhwydwaith hyfyw a chynaliadwy.

Mae'r rhwydwaith wedi ei rannu'n bedwar dosbarth ffordd, sef A, B, C a Di-ddosbarth, gyda'r ffyrdd C a Di-ddosbarth yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r ffyrdd (cyfanswm o 1,142 cilomedr). Pob blwyddyn rydym ni'n defnyddio Scanner, techneg arolygu syml sy'n cael ei asesu'n allanol, i asesu cyflwr yr holl ffyrdd A a B a sampl ar hap o hanner y ffyrdd C. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn yn cyflwyno canlyniadau ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyflwr ffyrdd. Ers 2011 mae'r dangosyddion hyn wedi dangos gwelliannau parhaus yn y tri dosbarth, gydag ond 2.7% o'n ffyrdd A yn y categori 'gwael'. Serch hynny, mae'n dal yn bwysig nodi bod angen ymgymryd â gwaith mewn sawl lleoliad ac mae rhywfaint o'r gwaith yma yn golygu buddsoddiad sylweddol, heb unrhyw ffynhonnell ariannu amlwg ar eu cyfer. Dylid nodi hefyd bod y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol yn berthnasol i 32% o ffyrdd y sir.

Mae'r 68% arall yn cael eu hasesu yn defnyddio methodoleg arolygu weledol gan ein harolygwyr ein hunain, ac ers 2011 mae hyn wedi dangos darlun mwy cymhleth. Rydym ni wedi gwella dros 100 o ffyrdd gwaethaf y sir ac felly dylid bod modd gweld gwelliant amlwg yn y sgôr cyffredinol. Fodd bynnag, nid dyma'r achos. Mewn gwirionedd mae'r sgôr bellach yn 16% yn waeth na'r sgôr a gafwyd chwe blynedd yn ôl, sy'n dangos bod sgôr cyfartalog pob ffordd bellach yn uwch, h.y. yn waeth. Mae hyn yn dangos bod gennym ni lai o ffyrdd mewn cyflwr gwael ond bod gennym ni fwy o ffyrdd yn dirywio. Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod y dirywiad hwn yn fwy lleol yn hytrach nag ar ddarnau hirach o ffyrdd, ac felly gall hyn ein helpu ni ddatblygu strategaeth i symud ymlaen, fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

O ran ffynonellau ariannu, mae'r gwelliannau hyd yma wedi eu hariannu yn bennaf drwy fenthyca darbodus. Am dair blynedd ychwanegwyd at y swm hwn gan Lywodraeth Cymru, drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol, a oedd yn hwb mawr. Fodd bynnag, nid yw'r cyllid hwn bellach ar gael i ni. Lwfans cyfalaf y sir ar hyn o bryd yw £2.55 miliwn ac mae oddeutu £2.3 miliwn yn cael ei wario ar y rhwydwaith ffyrdd. Yn ychwanegol at hyn ceir cyllid refeniw ac mae dadansoddiad o hynny ar gael yn Atodiad 1.

Os yw'r lefelau presennol o wario yn cael ei chynnal yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol presennol, teimlir y byddai hyn yn arwain at:-

a) Cynnydd yn y dyraniad cyllideb sydd angen ei wario ar waith cynnal a chadw ymatebol er mwyn ymgymryd â'n dyletswyddau statudol
b) Dirywiad cymedrol yn y cyflwr
c) Cynnydd yn nifer y mân ddiffygion
d) Cynnydd yn y nifer posibl o hawliadau gan drydydd parti
e) Lleihad tebygol ym modlonrwydd cwsmeriaid a chyflwr y ffyrdd

Mae Atodiad 2 yn cynnwys graff o’r dirywiad tebygol yn seiliedig ar y lefelau cyllido presennol.

Drwy ddefnyddio meddalwedd mae’n bosibl dadansoddi effaith y strategaethau gwario amrywiol ac mae un dewis yn ceisio cyflawni ‘cyflwr cyson’ h.y. cynnal y ffyrdd yn ei gyflwr presennol. Mae'r canlyniad yn fan hyn yn golygu y bydd yr adnoddau presennol yn ddigon cyhyd a bod pob ceiniog yn cael ei wario yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae hyn yn anodd iawn.

Bu i ni hefyd ddefnyddio’r meddalwedd i gyfrifo'r gost yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol newydd i gyflawni'r gwelliant cyfartalog o 4% y cawsom yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol diwethaf, ac mae hynny’n cyfateb i fuddsoddiad o £2.7 miliwn flwyddyn ar ôl blwyddyn (o gymharu â’r £2.3 miliwn presennol), gan dybio y bydd y dyraniad refeniw presennol yn aros yr un peth. Gan fod y rhwydwaith ffyrdd yn rhan naturiol o’r seilwaith ar draws y sir gyfan, mae’n debygol iawn y bydd mathau eraill o waith yn cael eu gwneud a fydd yn effeithio ar y priffyrdd. O ganlyniad, a chyda cynllunio priodol, ein nod yw cysylltu â chymaint o ffynonellau ariannu eraill â phosibl i ddarparu budd cydfuddiannol. Rydym ni eisoes yn gweithio gyda'r Adran Dai ar strategaeth i dderbyn y budd cydfuddiannol mwyaf, a byddwn yn parhau i wella’r cyfathrebu gyda swyddogion cynllunio er mwyn treiddio ymhellach i sut y gall datblygiadau newydd roi hwb i’n cyllideb h.y. drwy gytundebau adran 278. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) hefyd yn ein helpu gyda hyn. Yn naturiol, rydym ni eisoes yn gweithio’n agos gyda chwmnïau gwasanaethau i wneud y defnydd gorau o ddeddfwriaethau sy’n ymdrin â gwasanaethau stryd, ac ar gyfer cynlluniau penodol, pan fo’n briodol, rydym ni’n ceisio cyllid grant. Yn fras, byddwn yn gwneud ein gorau i fanteisio ar gymaint o gyfleoedd ariannu â phosibl a sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio’n ddoeth.

O ran y strategaeth cynnal a chadw a’r wybodaeth yn sgil y Dangosydd Cyflwr Ffyrdd mae'n amlwg mai ychydig iawn o ffyrdd yn y sir, ac eithrio ffyrdd sy’n destun cynlluniau mawr, sydd wedi methu’n strwythurol a bod diffygion lleol yn fwy cyffredin. Yn wir, mae llawer o’n ffyrdd mewn cyflwr rhesymol, ac felly mae’n bwysig eu cadw yn y cyflwr hwnnw drwy raglen triniaethau wyneb ffordd. Pan fo’n briodol, byddwn yn llenwi tyllau ac ati un flwyddyn ac yna'n trin yr wyneb yn ystod gwanwyn y flwyddyn ganlynol.

